

ATODLEN 2

RHAN I

RHEOLAU SYLFAENOL I BENDERFYNU MUDIAD PLWM A CHADMIWM

Yr hylif prawf (“efelychyd”)

1. 4% (v/v) asid asetig, mewn toddiant o baratowyd yn ffres.

Amodau'r prawf

- 2.—(1) cyflawni'r prawf ar dymheredd o $22 \pm 2^\circ$ am gyfnod o 24 ± 0.5 awr.

(2) Pan benderfynir mudiad plwm, rhodder gorchudd ar y sampl mewn modd priodol i'w ddiogelu a gadawer ef yn agored i'r amodau goleuo arferol sydd mewn labordy.

(3) Pan benderfynir mudiad cadmiwm neu blwm a chadmiwm, rhodder gorchudd ar y sampl i sicrhau bod yr arwyneb y mae profion i'w cynnal arno yn cael ei gadw mewn tywyllwch llwyr.

Llenwi

- 3.—(1) Samplau y gellir eu llenwi

- (a) Llenwer yr eitem â 4% (v/v) o toddiant asid asetig at lefel nad yw'n uwch na 1mm o'r pwynt gorlifo; mesurir y pellter o ymyl uchaf y sampl.
- (b) Dylid llenwi samplau gydag ymyl gwastad neu ymyl sy'n goleddfu fel nad yw'r pellter rhwng arwyneb yr hylif a'r pwynt gorlifo yn ddim mwy na 6mm wrth fesur ar hyd yr ymyl sy'n goleddfu.

- (2) Samplau na ellir eu llenwi

Yn gyntaf, gorchuddir arwyneb y sampl na fwriedir iddo ddod i gyffyrddiad â bwydydd â haenen amddiffynnol sy'n gallu gwrthsefyll gweithrediad y 4% (v/v) toddiant asid asetig. Yna boddir y sampl mewn cynhwysydd sy'n cynnwys swm gwybyddus o toddiant asid asetig yn y fath fodd y bydd yr arwyneb y bwriedir iddo ddod i gyffyrddiad â'r bwydydd yn cael ei orchuddio'n llwyr gan yr hylif prawf.

Penderfynu arwynebedd yr arwyneb

4. Mae arwynebedd arwyneb yr eitemau yng nghategori 1 yn hafal i arwynebedd arwyneb y menisgws a ffurfir gan yr arwyneb hylif rhydd a geir wrth gydymffurfio â'r gofynion llenwi a osodir ym mharagraff 3.